

No.

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey; W. Gilligan; R. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, N. Marshallsea a E. Penn.

Aelodau Cyfetholedig: M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Cynradd), G. van der Burgt (Rhiant Lywodraethwr – Sector Uwchradd), R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro) ; J. Clemett a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg)

### 797 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 798 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru).

### 799 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

### 800 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd) gysylltiad personol ond nid oedd yn rhagfarnu yn Eitem 5 ar yr Agenda - Strategaeth Gorfforaethol Arfaethedig ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth 2024-28. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn gweithio i Llamau.

## 801 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O LEOLIADAU GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2023 gan y Rheolwr Gweithredol, a roddodd drosolwg o gynnwys yr adroddiad.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd y Swyddogion wedi profi cynnydd yn nifer y plant a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau, a oedd ag anghenion cynyddol gymhleth, ar ôl pandemig Covid-19. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol fod hyn wedi digwydd, a bod cynnydd sylweddol wedi bod yn lefelau cymhlethod yr angen a welwyd ymhlith plant a phobl ifanc y bu'r gwasanaeth yn gweithio gyda nhw, mewn ffordd debyg yr oedd gwasanaethau addysg hefyd wedi gweld cynnydd tebyg ymhlith disgyblion Bro Morgannwg. Ychwanegodd fod cynnydd penodol wedi bod mewn problemau lles emosïynol ac iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc.

Wedi hynny, canmolodd y Cynghorydd Lynch-Wilson waith tîm maethu'r Cyngor, yr oedd wedi cwrdd ag ef yn ddiweddar. Adleisiodd y Rheolwr Gweithredol y sylw hwn, a dywedodd ymhellach fod y Cyngor yn gwneud ymdrechion sylweddol i recriwtio mwy o ofalwyr maeth.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cynghorydd E.J. Goodjohn a oedd teulu neu blentyn a oedd yn cael ei ryddhau o gymorth yn cael ei ystyried fel un sydd 'ar ffiniau gofal', ac a oedd y plant yn dal i gael eu monitro a'u hasesu ar gyfer eu hanghenion cymorth yn dilyn eu rhyddhau. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod angen i'r llysoedd fod yn rhan o'r broses wrth geisio rhyddhau gorchymyn gofal, ac y byddai ganddynt yr awdurdod i weithredu'r rhyddhau. Dywedodd hefyd fod y Swyddogion fel arfer yn paratoi cynllun gofal a chymorth ar gyfer plant a theuluoedd o'r fath, ac yn y rhan fwyaf o achosion, parhaodd yr achos perthnasol ar agor am o leiaf chwe mis, ar sail gofal a chymorth, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw broblemau'n ymwneud â'r rhyddhau.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod dibyniaeth y Cyngor ar asiantaethau maethu annibynnol a'r angen i'w defnyddio wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Roedd hyn yn adlewyrchu prinder cenedlaethol sylweddol o ofalwyr maeth. Ychwanegodd y Swyddog ei bod yn anodd rhagweld pryd y gallai nifer y lleoliadau maeth allanol ddechrau gostwng, a bod pob Awdurdod Lleol ledled Cymru yn gweithio gyda'i gilydd mewn perthynas â recriwtio gofalwyr maeth.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach:

**ARGYMHELLWYD** – Y dylid nodi'r cyfeiriad eglurhaol gan y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a'r adroddiad atodol.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar y cyfeiriad eglurhaol, yr adroddiad atodedig, a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

802 STRATEGAETH GORFFORAETHOL ARFAETHEDIG AR GYFER PLANT SYDD ANGEN GOFAL A CHYMORTH 2024-28 (CGC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cysylltiadau Dysgu a rhoddodd drosolwg i'r Pwyllgor o'r Strategaeth Gorfforaethol 2024-28 arfaethedig ar gyfer Plant Sydd Angen Gofal a Chymorth.

Y Strategaeth arfaethedig yn Atodiad 1 yr adroddiad oedd trydedd Strategaeth Gorfforaethol Bro Morgannwg ar gyfer Plant sydd Angen Gofal a Chymorth. Cymeradwywyd y Strategaeth dair blynedd gyntaf gan y Cabinet ym mis Hydref 2016, a nododd newid sylweddol o ran cydnabod cyfrifoldebau'r Cyngor cyfan o ran galluogi plant sydd angen gofal a chymorth i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir i wella eu lles a'u hamddiffyn rhag niwed, ac alinio rolau nifer o gyfarwyddiaethau wrth gyflawni'r camau gweithredu cysylltiedig.

Gwnaeth yr ail Strategaeth adeiladu ar y sylfeini hynny ac adlewyrchu'n gadarnhaol y perthnasau traws-sector o fewn ei Chynllun Gweithredu. Parhaodd y drydedd Strategaeth â'r etifeddiaeth hon ar ôl cael ei datblygu mewn partneriaeth â phartneriaid allanol ym maes lechyd, yn y Trydydd Sector a thrwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Nododd y Strategaeth arfaethedig sut, drwy ddefnyddio model integredig o wasanaethau, y byddai anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu bodloni, o fewn yr adnoddau a oedd ar gael i'r Cyngor a'i bartneriaid, yn ystod y cyfnod rhwng 2024 a 2028.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Marshallsea ynghylch sut y cafodd y gwasanaethau a amlinellwyd yn yr adroddiad eu hyrwyddo, dywedodd y Rheolwr Cysylltiadau Dysgu fod y Swyddogion yn anelu at fod yn fwy creadigol wrth rannu eu negeseuon wrth symud ymlaen, a hefyd at fod yn rhagweithiol ac yn ataliol yn eu dull gweithredu. Ychwanegodd fod cael gwybodaeth glir, eglur a chyfredol am y gwasanaethau a oedd ar gael y gallai teuluoedd ei gweld yn hawdd ar-lein hefyd yn bwysig.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan Dr M. Price, dywedodd y Rheolwr Cysylltiadau Dysgu, er y byddai sicrhau adnoddau ar gyfer y camau gweithredu yn y strategaeth yn her, ei ddealltwriaeth oedd y byddai'r strategaeth yn cael ei chyflawni gan ddefnyddio adnoddau presennol. Roedd hyn yn golygu y byddai angen blaenoriaethu a strwythuro camau gweithredu o fewn y strategaeth yn unol â'r rhai a oedd yn gyflawnadwy yn y tymor byrrach ac yn y tymor hwy. Ychwanegodd y Swyddogion y byddai gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda'r trydydd sector a'r gwasanaethau iechyd, yn allweddol i gyflawni nodau'r strategaeth, a bod partneriaid allweddol wedi ymrwymo i'r gwaith cydweithredol o fewn y strategaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Penn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod nifer fach o Bobl a oedd yn Gadael Gofal yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda nhw yn derbyn yr Incwm

Sylfaenol Cyffredinol fel rhan o'r cynllun peilot drwy Lywodraeth Cymru, a bod y Swyddogion wedi gweld bod y cynllun peilot yn hynod lwyddiannus er gwaethaf rhai problemau cychwynol.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan y Cadeirydd mewn perthynas â'r hyn a olygai cyfeiriad yr adroddiad at 'ymgorffori Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a Chynlluniau Addysg Personol (CAPau)' yn ymarferol, dywedodd y Rheolwr Cysylltiadau Dysgu a Phennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles y canlynol:

- Roedd angen i CAPau fod yn gadarn a chael eu diweddarau'n rheolaidd;
- Roedd porthol proffesiynol wedi'i ddatblygu i alluogi'r Swyddogion i oruchwylio CAPau plant a oedd yn derbyn gofal ym Mro Morgannwg;
- Roedd y swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i alinio'r broses CDU â'r gwaith a amlinellwyd yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Roedd hyder y gallai'r Swyddogion gyflawni'r cam gweithredu o ymgorffori'r nodau hyn erbyn mis Medi 2024;
- Ar hyn o bryd roedd digon o gapasiti i weithredu nifer y CAPau a'r CDUau a oedd eu hangen, er bod adnoddau parhaus ynghylch gweithredu CDUau yn bwynt pinsio cydnabyddedig, ac roedd angen cynnydd mewn capasiti ar gyfer hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Gilligan ynghylch y cymorth a oedd yn cael ei gynnig i blant a oedd yn cael eu maethu o ran eu haddysg, dywedodd y Rheolwr Cysylltiadau Dysgu fod y ddarpariaeth yn cyfateb i anghenion y plentyn yn yr ysgol, ac y byddai'n cynnwys, er enghraifft, cyfarfodydd cyn-derbyn ychwanegol a chymorth wrth bontio o un ysgol i ysgol arall. Darparwyd darpariaeth ar sail a arweiniwyd gan y plentyn, ac roedd yn bodloni anghenion unigol pob plentyn ac felly roedd pob pecyn darpariaeth fesul plentyn yn wahanol. Ychwanegodd fod ysgolion Bro Morgannwg yn wir yn canolbwyntio ar y plentyn yn eu dull gweithredu, ac y byddai plant a phobl ifanc maeth yn cael eu cefnogi wrth bontio i ysgol newydd, gyda'u cynnydd wedyn yn cael ei fonitro wrthynt ymgartrefu.

#### ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Gweithredu pedair blynedd newydd ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth.
- (2) Ar ôl ystyried y Strategaeth arfaethedig a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, bod adborth y Pwyllgor yn llywio drafft terfynol y Strategaeth.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad, a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Llywio datblygiad drafft terfynol o'r Strategaeth i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

803 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2022-23  
(CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2024 gan Reolwr Gweithredol Cyfathrebu Corfforaethol, Cyfranogiad, Cydraddoldeb a Datblygu Cyfarwyddiaethau.

Yn dilyn trosolwg y Rheolwr Gweithredol o gynnwys yr adroddiad, mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Hennessy, dywedodd y Swyddog y byddai'n cysylltu â'r tîm sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun i roi talebau siopa i breswylwyr digartref, er mwyn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch y nifer sy'n derbyn y cymorth hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan R. Goodjohn mewn perthynas â diffyg cynrychiolaeth ar gyfer pobl a nododd eu bod yn anneauidd o ran eu rhywedd, dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y Swyddogion yn edrych ar ffyrdd o wella'r ffaith nad oedd ffurflen a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu data wedi cynnwys opsiwn ar gyfer dewis anneauidd fel rhywedd ymatebwyr. Ychwanegodd mai'r rheswm dros yr hepgoriad hwn oedd o bosib oherwydd gofynion ynghylch y ffordd y cafodd y data ei rannu gydag asiantaeth arall, ac y byddai'n cysylltu â chydweithwyr perthnasol er mwyn cadarnhau'r rheswm y tu ôl i hyn i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Hodges ynghylch adroddiadau a wnaed i'r Cynghorydd gan ddefnyddwyr cynllun trafndiaeth gymunedol Greenlinks, ynghylch anfonebu wedi'i oedi a'i ddyddio'n ôl, dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod angen iddo gysylltu â'r Swyddogion perthnasol i gael manylion am y sefyllfa, ac y byddai wedyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Ychwanegodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg fod camau wedi'u cymryd yn ddiweddar i fynd i'r afael â phroblemau a gafwyd o ran adfer dyledion. Ychwanegodd, pe bai achosion penodol yr hoffai'r Cynghorydd Hodges iddo gysylltu â'r tîm rheoli incwm yn eu cylch, y byddai'r Rheolwr Gweithredol yn hapus i wneud hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Hennessy, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y gallai drosglwyddo awgrym bod ysgolion sydd angen trafndiaeth yn defnyddio cynllun Greenlinks i gydweithwyr Trafndiaeth ac Addysg, er mwyn iddynt ymchwilio i ddichonoldeb hyn.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan yr Is-gadeirydd ynghylch y gwasanaeth tacsis ym Mro Morgannwg sy'n ymddangos yn anhygyrch i blant, oedolion ifanc neu bobl hŷn ag anabledau, a'r rhwymedigaethau cytundebol sydd gan y Cyngor i sicrhau bod tacsis yn hygyrch, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y gallai gysylltu â chydweithwyr yn y tîm Trwyddedu i archwilio'r paramedrau ac unrhyw gyfleoedd sydd ar gael i wella hygyrchedd opsiynau trafndiaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau dilynol gan y Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Gweithredol er na allai ddweud pryd y byddai Cynllun Gweithredu ar Anabled Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi, roedd yn ei ystyried yn sbardun posibl i amcanion cydraddoldeb strategol y Cyngor yn y dyfodol. O ran ail gwestiwn y

No.

Cadeirydd, dywedodd y Swyddog y byddai'n cael y data yn ymwneud â chost defnyddio darparwyr hyfforddiant allanol er mwyn adrodd hyn yn ôl i'r Pwyllgor.

ARGYMHELLWYD – Ar ôl ystyried y cyfeiriad gan y Cabinet, a'r adroddiad atodedig, y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried a'u cynnwys yn fersiwn terfynol yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blyneddol.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn gwneud y Cabinet yn ymwybodol o farn y Pwyllgor hwn, ac i alluogi cyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2024 i gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor.

#### 804 ADOLYGIAD O AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR BRO MORGANNWG AR GYFER Y CYFNOD 2024-25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2024 gan Reolwr Gweithredol Cyfathrebu Corfforaethol, Cyfranogiad, Cydraddoldeb a Datblygu Cyfarwyddiaethau.

Ar ôl cyflwyno'r cyfeiriad, tynnodd yr Is-gadeirydd sylw at gydraddoldeb ynghylch problemau iechyd meddwl a sut roedd hyn wedi'i gynnwys o fewn y nodwedd warchoddedig anabledd, ac roedd o'r farn ei fod yn cyfiawnhau trafodaeth ar wahân, gan ei fod yn effeithio ar nifer mor fawr o bobl, yn enwedig ar ôl Covid-19. Mewn ymateb, cytunodd y Swyddog â phwysigrwydd problemau iechyd meddwl, a dywedodd y gellid cynnwys mwy o wahaniad a manylion yn amcanion cydraddoldeb strategol y dyfodol.

ARGYMHELLWYD – Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r atodiadau fel rhan o'r broses ymgynghori, y dylid nodi eu cynnwys, ac y dylai'r Cabinet ystyried sylwadau'r Pwyllgor hwn ynghylch Iechyd Meddwl.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i farn y Pwyllgor hwn gael ei hystyried gan y Cabinet cyn cyhoeddi drafft terfynol yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y Cyfnod 2024-25.

#### 805 CYLLIDEB GYCHWYNNOL 2024/25 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 I 2028/29 CYNIGION AR GYFER YMGYNGHORI (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r cynigion at y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024 i'w hystyried. Rhoddodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg drosolwg o'r adroddiad i'r Pwyllgor trwy gyflwyniad PowerPoint.

Rhoddodd yr adroddiad sefyllfa ariannol wedi'i diweddarau i'r Aelodau yn dilyn Datganiad Hydref Llywodraeth y DU a Chyllideb Llywodraeth Cymru. Nododd yr adroddiad gyllideb arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024/25, gan gynnwys cynigion arbedion cychwynnol a defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25. O ran cyd-destun, yn yr adroddiad roedd crynodeb o'r

No.

egwyddorion a nodwyd yn y Strategaeth Ariannol a oedd wedi helpu i lunio'r cynigion.

Diben yr adroddiad oedd rhoi cyfle i'r Aelodau oruchwylio a chraffu ar y cynigion ac roedd yn cynnwys manylion y cynigion trawsnewid ac ail-lunio yn y dyfodol i gefnogi cyllid y Cyngor yn y tymor canolig. Disgrifiodd yr adroddiad hefyd y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynigion cyllideb, a'r broses ar gyfer ymgynghori cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried y cynigion cyllideb terfynol yn ffurfiol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Pwysleisiodd yr adroddiad yr her yr oedd y Cyngor yn ei hwynebu o ran cynnal cyllid a gwasanaethau cynaliadwy mewn amgylchedd o gyllid wedi'i ddogni'n fawr ochr yn ochr â phwysau gofal cymdeithasol a oedd yn cynyddu'n gyson. Nodwyd bod darparu Gwasanaethau Cymdeithasol o bosibl yn defnyddio 31% o adnoddau'r Cyngor, i fyny o 29% yn 2023/24 a 25% yn 2015/16.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd y Cynghorydd Hennessy a allai'r Rheolwr Gweithredol roi gwybod i'r Pwyllgor faint dros y gyllideb oedd y Cyngor ar hyn o bryd o ran Trafnidiaeth Ysgol. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr fod y gwasanaeth trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol yn rhagweld gorwariant o tua £600,000. Roedd rhywfaint o gyllid ychwanegol wedi bod ond roedd hyn yn ymwneud â demograffeg mewn ysgolion arbennig ac nid oedd y gyllideb yn adlewyrchu pwysau chwyddiant. Roedd yn ymwybodol bod yr adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdogaeth wedi cynnal cyfarfodydd yn ddiweddar i ystyried sut y gellid lliniaru'r pwysau wrth symud ymlaen, a byddai'n hapus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn gan y swyddogion perthnasol a rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor yn unol â hynny.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Hennessy fod rhieni yn ei farn ef angen cymorth i gael eu plant i'r ysgol ac y byddai cyllid pellach o fudd i rieni i'w cefnogi yn hyn o beth. Dywedodd Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fodd bynnag, gan ystyried y polisi trafndiaeth, pe bai disgyblion y tu allan i'r dalgylch, na fyddai ganddynt hawl i gael trafndiaeth ysgol am ddim gan nodi y byddai rhieni'n cael gwybod am hyn wrth wneud cais am leoedd. Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy hefyd a oedd ysgolion ym marn y swyddogion yn debygol o dderbyn unrhyw gyllid ychwanegol ac, os na, a fyddai'r Cyngor yn disgwyl dileu swyddi.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â phwysau'r gyllideb, rhai meysydd er enghraifft, ynghylch costau asiantaethau a chaffael gydag awgrymiadau wedi'u gwneud i reoli meysydd o'r fath gyda'i gilydd. Yn flaenorol, cyflwynwyd cynigion dileu swyddi i fynd i'r afael â materion cyllidebol a nodwyd mai dim ond rhan o'r cynigion a oeddent yn cael eu hystyried y byddai'r angen i ddileu swyddi. Dywedodd y Cyfarwyddwr hefyd fod cyhoeddiad gweinidogol wedi'i wneud y diwrnod hwnnw ynghylch cyllid ychwanegol i Gymru mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol ac i gefnogi'r dyfarniad cyflog i athrawon, fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod yr elfen Gofal Cymdeithasol yn sylweddol, ni adawyd llawer o gyllid i gefnogi'r dyfarniad cyflog. Dywedodd y Cyfarwyddwr hefyd, ymhellach i sylwadau Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg, ei bod yn ymwybodol y gallai fod yn rhaid i rai ysgolion, o ystyried materion cyllidebol, ystyried dileu swyddi. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod hyn hefyd

wedi'i weld yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol gan nodi y byddai'r sefyllfa'n dynnach fyth yn y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y Cyngor yn ystyried nifer o fentrau i gefnogi ysgolion, gan gydnabod ei bod yn sefyllfa anodd iawn.

Cyfeiriodd R. Goodjohn, cynrychiolydd Fforwm leuenctid y Fro, at y cynigion Ôl-16 o ran trafndiaeth, gan ddweud mai dyma oedd un o'r blaenoriaethau uchaf i bobl ifanc a bod y Fforwm leuenctid yn erbyn y cynnig. Dywedodd y byddai'r cynnydd, yn fwy na thebyg, yn golygu y byddai pobl ifanc naill ai'n mynd â'r car neu ddim yn mynd i'r ysgol o gwbl. Teimlai fod y cynnig wedi'i dargedu yn erbyn ardaloedd gwledig gan gydnabod y gallai'r rhan fwyaf o bobl yn y Barri gerdded i'r ysgol o bosibl. Roedd teimlad hefyd bod gwasanaethau bws ysgol yn annibynadwy ac y byddai cynyddu'r costau, yn ei eiriau ef, "yn eu cicio nhw ar lawr" a dywedodd ei fod yn argymhell y dylid gofyn i'r Cyngor roi trafndiaeth ysgol fel blaenoriaeth i ddisgyblion Ôl-16 wrth ystyried y gyllideb.

Gofynnodd T. Williams, cynrychiolydd Cyngor leuenctid y Fro, er gwaethaf y defnydd o offer TGCh, pa ffyrdd eraill yr oedd y Cyngor yn bwriadu lleihau ynni o fewn ysgolion. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod nifer o gynigion datgarboneiddio wedi'u nodi yn y gyllideb fel y maent wedi'u cynnwys yn yr eitem nesaf ar yr agenda sy'n ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf a oedd yn cynnwys, er enghraifft, edrych ar y defnydd o baneli ffotofoltäig a phympiau gwres.

Adleisiodd J. Clement, Cyngor leuenctid y Fro, sylwadau R. Goodjohn, gan gadarnhau bod Fforwm leuenctid y Fro yn gwrthwynebu'r cynigion yn ymwneud â thrafnidiaeth Ôl-16. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'n fwy na pharod i roi'r sylwadau i'r gwasanaeth gan ddweud bod trafndiaeth Ôl-16 yn rhywbeth yr oedd y Cyngor wedi bod yn ei ystyried ers peth amser, gan ddweud mai'r rheswm dros gyflwyno'r cynnig oedd oherwydd ei fod yn wasanaeth anstatudol ac fel rhan o'r holl gynigion cyllideb roedd pob gwasanaeth anstatudol yn cael ei adolygu o ystyried effaith y pwysau cost ar gyfer y Cyngor.

Tynnodd y Cynghorydd Hodges sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i bobl ifanc fod yn ymwybodol mai'r gwir fater oedd methiant Llywodraeth Cymru i roi'r cyllid a gwnaeth gymhariaeth â'r Alban lle roedd cyllid trafndiaeth am ddim i bobl dan 22 oed.

Gofynnodd y Cynghorydd Payne am y pwysau cost yn ymwneud â'r galw am leoedd mewn ysgolion gan nodi bod mwy o alw am leoedd mewn ysgolion yn Lloegr a gofynnodd beth fyddai'r cynllun yn hyn o beth. Dywedodd Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau mewn ymateb i hyn y cyfeiriwyd at hyn yn adroddiad y Rhaglen Gyfalaf gyda'r bwriad o gael sylw manylach mewn adroddiad Cabinet yn y dyfodol gan fanylu ar gynigion yn ymwneud â rhaglen dreigl ar gyfer cymunedau dysgu cynaliadwy.

Gofynnodd y Cynghorydd Marshallsea a fyddai'r ysgol anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng ngorllewin y Fro yn lleihau'r gofyniad am drafnidiaeth ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd unrhyw dir wedi'i nodi ar gyfer ysgol ADY ar hyn o bryd, ond ei bod yn amlwg bod angen darpariaeth. Unwaith eto, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at adroddiad yn y dyfodol i'w gyflwyno i'r Cabinet mewn



No.

perthynas â rhaglen dreigl ar gyfer ysgolion a fyddai'n cyfeirio at y gofyniad am ail ysgol ADY.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Lynch-Wilson ynghylch darparu cyfleuster sbectrwm awtistig, dywedodd Pennaeth ADY a Lles fod hwn yn faes sy'n tyfu a'r gobaith oedd y byddai'r cynigion yn bodloni'r angen presennol gan gydnabod y gallai hefyd fod yn gwestiwn ynghylch angen yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Gilligan a oedd y Cyngor wedi derbyn mwy o alwadau am leoedd prydau ysgol am ddim. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Adnoddau a Dysgu Cymunedol mewn ymateb, fod gan bob plentyn mewn ysgolion cynradd hawl i gael prydau ysgol am ddim ac roedd llawer mwy o deuluoedd am fanteisio ar brydau ysgol am ddim.

Manteisiodd y Cynghorydd Goodjohn, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, gyda chaniatâd i siarad, ar y cyfle i ddweud y byddai cyllid i ysgolion yn cynyddu o 4.5% er nododd y byddai rhan fawr o'r cynnydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y dyfarniad cyflog i athrawon.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Cyfarwyddwr wedi cael gwybod am yr amserlenni cyllido a phryd y byddai'r Cyngor yn derbyn y cyllid hwnnw ar gyfer Addysg. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei bod wedi cael ffigurau amrywiol gan Lywodraeth Cymru gyda llawer o'r arian yn cael ei neilltuo ar gyfer Gofal Cymdeithasol gyda symiau eraill yn dod trwy grant cynnal refeniw y Cyngor ond i ysgolion dywedodd na fyddai'r ffigur yn gallu cefnogi'r gwahaniaeth ar gyfer y dyfarniad cyflog i athrawon. O ran unrhyw gymorth pellach mewn perthynas â thaliadau ar gyfer y dyfarniad cyflog i athrawon, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyllid wedi cael eu lobio gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru a oedd wedi cynnwys lobio am roi sylw i ganlyniadau posibl peidio â derbyn cyllid pellach. Derbynnir hefyd pe bai unrhyw arian pellach yn dod ar gael y dylid blaenoriaethu'r dyfarniad cyflog i athrawon a phensiynau er bod arwyddion cynnar yn dangos na fyddai cyllid ychwanegol pellach ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD - Y dylid nodi'r tybiaethau ariannu a gwariant diwygiedig, ynghyd â'r cynigion arbedion drafft, a chyfeirio barn y Pwyllgor hwn i'w graffu yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, ac i ymateb cyfansawdd gael ei ddatblygu a'i gyfeirio'n ôl i'r Adroddiad Arbennig. Cabinet ar 29 Chwefror, 2024.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad, ac i drafodaethau yn y cyfarfod, a sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o farn y Pwyllgor hwn.

## 806 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2024/25 I 2028/29 (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r gwaith o ystyried yr adroddiad at y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024.. Nododd yr adroddiad y Rhaglen Gyfalaf bum mlynedd bresennol ar gyfer y cyfnod rhwng 2024/25 a 2028/29 a'r Bidiau Cyfalaf a gyflwynwyd ar gyfer y cyfnod a nodwyd yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr adroddiad.

Roedd y Cyngor yn wynebu pwysau sylweddol mewn perthynas â chwyddiant prisiau a'r argyfwng costau byw a oedd wedi arwain at gynydd yng nghostau deunyddiau a llafur. Roedd hyn yn cael effaith ar y cynlluniau presennol o fewn y Rhaglen Gyfalaf a hefyd y cyllid a oedd ar gael i gyllido cynlluniau newydd o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

Cyfanswm gwerth cynlluniau cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf oedd £376.618m a chrynhair hyn yn y tabl isod. Roedd hyn yn cynnwys £22.349m ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Band B, £78.565m ar gyfer cynlluniau piblinell Addysg a £205.775m ar gyfer y Rhaglen Gwella Tai.

Tabl 1 – Crynodeb o gynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd

Cyfarwyddiaeth	2024/25 £000	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	2028/29 £000
Dysgu a Sgiliau	21,360	2,360	3,750	4,435	2,000
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,297	975	100	100	100
Amgylchedd	9,519	5,662	3,685	3,685	3,685
Tai	38,745	38,209	41,970	39,634	47,217
Lleoedd	3,643	1,605	1,305	1,305	1,150
Adnoddau Corfforaethol	704	250	569	862	862
Y Fargen Ddinesig	1,069	1,117	844	0	930
Cynlluniau Piblinell	28,108	43,750	17,057	3,000	0
Cyfanswm	104,445	93,928	69,280	53,021	55,944

Tabl 2 – Crynodeb o gyllid y cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf

Cyllid	2024/25 £000	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	2028/29 £000
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol	6,986	6,986	6,986	6,986	6,986
Derbyniadau Cyfalaf	3,259	2,044	1,166	2,346	2,191
Cronfeydd Wrth Gefn	13,713	10,749	8,362	7,960	7,262

Benthyca Digymorth	32,473	35,633	31,082	27,624	33,935
Grantiau a Chyfraniadau (gan gynnwys A106)	48,015	38,516	21,684	8,105	5,570
Cyfanswm	104,446	93,928	69,280	53,021	55,944

Ers y cynigion Rhaglen Gyfalaf cychwynnol, roedd pwysau eraill wedi dod i'r amlwg, ac roedd rhai cynlluniau ychwanegol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Roedd rhestr o fidiau a phwysau ychwanegol a gynhwyswyd yn Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2028/29 yn Atodiad 3 yr adroddiad. Roedd cynlluniau newydd i'w cyllido dros y rhaglen bum mlynedd yn cynnwys dros £5.5m o fidiau Addysg i gefnogi'r ystâd ysgolion, £480k i wella Cartrefi Preswyl y Gwasanaethau Cymdeithasol, £6.5m yn ychwanegol i gyfrannu tuag at welliannau priffyrdd ac £875k ar gyfer plannu coed a gwaith cynnal a chadw coed cylchol.

Cyflwynodd y Rheolwr Cymorth Cyllid y cynigion gan nodi, gan nad oedd unrhyw arwydd pellach wedi dod gan Lywodraeth Cymru, y rhagdybiwyd y byddai lefel y cyllid Cyfalaf yn cael ei gwastatáu ar £6.986m o 2025/26 ymlaen, ac yna byddai'n aros yn gyson am weddill cyfnod y Rhaglen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddogfennaeth a nododd fod cyllid wedi cael ei geisio ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre gyda chais o ran o ble roedd yr arian hwnnw'n dod. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei bod yn ymwybodol bod y Cyngor yn ystyried edrych yn fewnol am y cyllid hwnnw gan fod yr angen i nodi cyllid yn eithaf brys, ac y byddai'n anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau cyn gynted â phosibl. Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd i'w sylw gael ei gyfeirio'n ôl at y Cabinet ac wedi hynny,

ARGYMHELLWYD - Ar ôl ystyried y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2024/25 i 2028/29, bod sylwadau'r Pwyllgor hwn ynghylch Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn i'r Pwyllgor gynnal cyfarfod. safbwyntiau i'w hanfon at y Cabinet.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am sylwadau'r Pwyllgor hwn, cyn gwneud cynnig ar y Rhaglen Gyfalaf.

#### 807 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-23 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau. Ei ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd Adroddiad Adolygiad Blynyddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor ar gyfer 2022-23 a'r adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gosododd Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynyddu cyfran yr holl grwpiau blwyddyn ysgol a oedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoddodd bwyslais arbennig ar gynyddu nifer y dysgwyr ym Blwyddyn 1 a oedd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Un o ymrwymadau allweddol y cynllun oedd y cynnig i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a oedd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031-32. Roedd hyn yn cyfateb i greu tua 390 o leoedd blwyddyn un erbyn 2031-32. Roedd y targed hwn yn heriol ac yng nghanol yr ystod darged a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ddyletswydd hon, roedd y Cyngor wedi llunio gweledigaeth a strategaeth CSCA 2022-32 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 8 Medi 2022. Roedd angen i Adroddiad Adolygiad Blynyddol 2022-23 (atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad) gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar berfformiad blwyddyn gyntaf y CSCA. Cyflwynwyd hyn ar 28 Gorffennaf 2023 a derbyniwyd adborth ar yr Adroddiad Adolygiad Blynyddol (atodwyd yn Atodiad B yr adroddiad) gan Lywodraeth Cymru ar 14 Tachwedd 2023. Roedd yr adborth gan Lywodraeth Cymru yn rhagorol ac yn sail ar gyfer cymorth a thrafodaeth barhaus. Nid oedd angen unrhyw newidiadau na diwygiadau i'r adroddiad o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.

Amlinellodd yr adroddiad y pwyntiau allweddol yn yr Adroddiad Adolygiad Blynyddol y gellid eu hystyried yn llawn ochr yn ochr â'r adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Hodges ynglŷn â'r syniad o ychwanegu ail ysgol gyfun Cyfrwng Cymraeg a pha mor ddatblygedig y gallai cysyniad o'r fath fod, dywedodd y Swyddog fod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yn cael eu hystyried, ac y byddai'r rhain yn destun ffactorau fel ymgynghoriadau a swm y cyllid a oedd ar gael.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Marshalsea ynghylch darpariaeth ADY mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg, dywedodd y Swyddog wedi hynny fod y Cyngor yn edrych ar gyfleoedd i ddatblygu Canolfannau Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg i gefnogi plant â chyflyrau fel Awtistiaeth, a bod hyn yn rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn bresennol. Ychwanegodd Pennaeth ADY a Lles fod un Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg eisoes yn cael ei defnyddio fel cynllun peilot, ac y byddai hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfod y Pwyllgor hwn yn y dyfodol, gyda'r bwriad o wneud y ganolfan yn barhaol yn Ysgol Gwaun Y Nant.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan yr Is-gadeirydd ynghylch darpariaeth ADY Cyfrwng Cymraeg a'i heffaith o ran yr ysgolion y mae rhieni'n eu dewis, dywedodd y Swyddog fod y gwaith mewn perthynas â hyn ar y gweill. Ychwanegodd fod cyfraddau ADY yn is ymhlith plant oed cynradd mewn addysg Cyfrwng Gymraeg nag mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg, er bod y bwllch yn lleihau. Dywedodd hefyd fod arbenigwyr ADY a oedd yn dysgu yn y Gymraeg ym mhob ysgol gynradd Bro Morgannwg. Dywedodd Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod recriwtio athrawon a oedd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn arbenigo

No.

mewn ADY yn her allweddol. Roedd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r gweithlu yn rhanbarthol, ond dim ond dros y tymor hwy y byddai hyn yn cael ei wireddu'n llawn.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cadeirydd ar amserlenni'n gysylltiedig â thyfu'r gweithlu addysg Cyfrwng Cymraeg, dywedodd y Rheolwr Gweithredol a'r Swyddog Addysg Gymraeg fod hwn yn waith a oedd ar y gweill i'r hirdymor, a'u bod yn gobeithio gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor gyda'r adroddiad nesaf ar y mater hwn.

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys Adroddiad Adolygiad Blynyddol 2022-2023, a'r adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o ran yr ymrwymiad hirdymor a amlinellwyd yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, a thrafodaethau yn y cyfarfod.